## 1. AMRYWIADAU ARIANNOL

1.1 **Gweithwyr - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth: Gorwariant £192:**

Sefyllfa derfynol net lled niwtral. Derbyniodd GwE gyfraniad grant tuag at eu costau rheoli a gweinyddu. Bu i'r Uned Rheolaeth/Gweinyddiaeth lwyddo i ymdopi gydag elfen o'r gwaith ychwanegol ar y prosiectau grant oddi fewn eu hadnoddau arferol, gan arwain at ryddhau arbedion o £25,732. Trosglwyddwyd yr arbedion i bwrpas cyfrannu at gostau ychwanegol cyflenwadau, yn benodol ar offer a meddalwedd technoleg gwybodaeth i'r staff ychwanegol gyflogwyd trwy'r grantiau (gan nad oedd y costau yn gymwys o fewn telerau'r grantiau).

*Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn yr adolygiad tymor 2.*

1.2 **Gweithwyr - Ymgynghorwyr Her: Tanwariant (£126,848).**

Secondiadau staff craidd i gynlluniau penodol ynghyd â throsiant staff sydd wedi arwain at danwariant ar y pennawd yma. Hefyd, bu anhawster ac oedi cyn penodi mewn rhai meysydd penodol, megis Ymgynghorydd Her Ysgolion Arbennig.

*Adroddwyd yn adolygiad tymor 2 tanwariant (£33,211).*

1.3 **Gweithwyr - Hyfforddiant, hysbysebu a chostau gweithwyr eraill: Gorwariant £11,079:**

Mân orwariant, yn bennaf oherwydd yr angen i ail hysbysebu rhai swyddi, a'r angen i hysbysebu nifer o swyddi dros dro.

*Adroddwyd yn adolygiad tymor 2 gorwariant £4,271.*

1.4 **Adeilad: Tanwariant (£6,845):**

Wrth sefydlu cyllideb 2015/16, cynyddwyd y gyllideb 'Rhent Adeiladau' er mwyn adlewyrchu cost blwyddyn gyfan swyddfeydd newydd GwE yng Nghaernarfon a Bae Golwyn. Bu llithriad yn y dyddiad meddiannu'r eiddo newydd, sydd wedi arwain at danwariant un-tro yn 2015/16. Hefyd, bu cost ychwanegol un-tro £79,143 o symud, addasu, sefydlu'r systemau TG / ffonau, a dodrefnu'r swyddfeydd a'r ystafelloedd hyfforddi i fod yn addas i bwrpas. Arianwyd y gost un-tro hyn trwy gyfraniad ychwanegol gan yr Awdurdodau.

*Adroddwyd yn adolygiad tymor 2 tanwariant (£18,157). Mae'r tanwariant ychydig llai na'r hyn ddisgwyliwyd, oherwydd cynnydd mewn defnydd o ystafelloedd allanol.*

1.5 **Cludiant: Tanwariant (£10,542):**

Mae'r trosiant staff nodwyd yn 1.2 uchod hefyd wedi arwain at danwariant ar gludiant.

*Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn yr adolygiad tymor 2.*

1.6 **Cyflenwadau a Gwasanaethau: Gorwariant £27,516:**

Sefyllfa derfynol o orwariant £27,516 ar y pennawd yma, er gwaethaf y trosglwyddiad cyllideb (£25,732) nodwyd uchod yn 1.1.

Roedd grantiau wedi ariannu rhai staff ychwanegol dros dro ac wedi cynyddu'r angen am adnoddau technoleg gwybodaeth ar gost o oddeutu £35,000 nad oedd yn gymwys i'w ariannu o'r grantiau.

Hefyd, roedd taliad un tro o £19,620 ar system casglu data ar-lein (SMS) o'r pennawd hwn.

*Lleihad o'r hyn adroddwyd yn yr adolygiad tymor 2 (gorwariant £39,768) yn dilyn ymdrech gan y gwasanaeth i leihau defnydd o gyflenwadau, mewn ymateb i'r gorwariant rhagwelwyd .*

1.7 **Broceru: Tanwariant / llithriad (£100,123):**

Yn dilyn penderfyniad gan y Bwrdd Rheoli, mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i gyfrannu i raglen gefnogaeth TGAU ar draws nifer o ysgolion Gogledd Cymru. Gan fod mwyafrif y cyrsiau wedi cychwyn ym mis Ebrill 2016, mae'r tanwariant hwn wedi'i ymrwymo i'w wario yn 2016/17.

*Ni ragwelwyd gôr/tan wariant yn yr adolygiad tymor 2.*

1.8 **Prosiectau Penodol: Tanwariant (£139,004) – Dim effaith net:**

Mae gan y gwasanaeth nifer o brosiectau penodol sy'n cael eu hariannu o ffynonellau allanol, gan gynnwys grantiau. Mae'r arian sydd ar gael yn sylweddol (£9,891,785 yn 2015/16), gydag amodau caeth ac amserlen gwario cyfyngedig.

Mae gorwariant o £2,978 ar y grant Her Ysgolion Cymru i'w ariannu o'r gyllideb craidd.

**Sylwadau rheolwyr GwE a'r Rhwydweithiau Rhanbarthol yn egluro'r resymau dros fethu gwario elfen o'r arian grant oedd ar gael:**

**LIDW**
Mae'r gwariant yn adlewyrchu gallu'r rhwydwaith TGCh rhanbarthol i gefnogi, o ystyried yr amserlen heriol iawn a chwmpas cyfyngedig y grant. Mynegwyd pryderon gyda Ll.C. ynghylch tebygolrwydd o danwariant a chynigwyd cefnogaeth ychwanegol i ysgolion. Cafodd hyn ei wrthod gan Lywodraeth Cymru, gan na ystyriwyd i gefnogi HWB+ yn benodol. O ystyried y gefnogaeth grant mae ysgolion Canolfannau Rhagoriaeth HWB+ eisoes wedi derbyn, tua £30,000 yr un, ac yr un amserlen gywasgedig ar gyfer cyflawni gweithgareddau (4 mis), rydym yn credu bod y cymorth strategol a ddarparwyd gan y rhanbarth i 5 ysgol Canolfan Rhagoriaeth HWB+ yn arwyddocaol ac yn rhesymol o ystyried y cyfyngiadau a nodwyd.

**GAD-PMG**
2015/16 oedd y flwyddyn gyntaf i'r grant PMG cael ei weithredu yn unol â threfniadau newydd gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd cadarnhad am y trefniadau wedi ei dderbyn tan ddiwedd chwarter 1 y flwyddyn ariannol. O ganlyniad, nid oedd Cydlynydd mewn lle tan ddiwedd chwarter 1 a 2 dymor yn unig oedd ar gael i ddatblygu a darparu'r rhaglen. Rydym yn hyderus ein bod mewn sefyllfa llawer gwell eleni gan ein bod wedi derbyn amser i baratoi a datblygu'r rhaglen a fydd yn cael ei gynnal dros flwyddyn gyfan.

**Ysgolion Arloesi**
Penderfynodd dwy ysgol i dynnu allan o'r rhaglen wedi iddynt ddeall yr anghenion yn llawn. Y penderfyniad wedi ei wneud oherwydd diffyg capasiti i ymrwymo yn llawn i'r rhaglen. Ysgolion i fod i dderbyn £7,500 yr un.
£14,328 o'r grant wedi ei glustnodi yn benodol (gan y Llywodraeth) ar gyfer prosiect penodol 'llwyth gwaith' gydag amodau caeth i'w dilyn. Cyrhaeddodd manylion yr elfen yma o'r grant yn rhy hwyr i'w rhannu gydag ysgolion er mwyn creu cynlluniau gwerth chweil gydag effaith.

*Ni ragwelwyd gôr/tan wariant yn yr adolygiad tymor 2.*

## 2. CRONFA TANWARIANT

2.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2015/16 oedd (£266,829). Yn ystod 2015/16, defnyddiwyd £11,500 ar gyfer datblygu gwefan GwE. Wedi ychwanegu'r tan wariant o (£205,050) daw cyfanswm y gronfa, ar 31 Mawrth 2016, i (£460,379).

2.2 Fel nodwyd uchod yn 1.7, mae £100,100 wedi ymrwymo i'w wario yn gynnar yn 2016/17 ar y rhaglen gefnogaeth TGAU. Wedi hynny, bydd gwerth y gronfa yn lleihau i (£360,279).